Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

COFEB YN 'LLEFARU O'R MUR' AM WEINIDOG FFYDDLON

Perthynai'r diweddar Barchg Eifion Lewis i deulu o weinidogion nodedig. Roedd yr emynydd mawr Elfed yn hen ewythr iddo, ei dad oedd y Parchg Morley Lewis a'i frawd y baledwr enwog, y Parchg Elfed Lewys. Roedd yn ŵr i Nan Lewis, enillydd Tlws y Ddrama ym Mhrifwyl Abertawe 1982 ac awdur dramâu cerdd ar themâu Beiblaidd sy'n dal i lanw theatrau mawr yn Sir Gâr – fel y gwnaeth 'Esther' yn Llanelli bythefnos yn ôl.

Oedfa Dadorchuddio

Oedfa i ddadorchuddio cofeb i Eifion Lewis fel gweinidog a bugail ddenodd y gynulleidfa sylweddol i gapel Peniel, ger Caerfyrddin ar ddydd Sadwrn 17 Medi. Yn ystod yr oedfa, cafwyd crynodeb o fywyd Eifion gan ei weddw, Nan. Soniodd am ei fagwraeth gynnar yng Nghwm Rhondda, ar adeg o dlodi mawr. Pan ddaeth i oed, dywedodd wrth ei dad ei fod am ei ddilyn i'r weinidogaeth. "Oes rhaid i ti?" holodd Morley Lewis. Atebodd yntau: "Does 'da fi ddim dewis." Ar ôl bod yng Ngholeg Bala Bangor, bu'n weinidog yng Nghwm Gwendraeth; Treforys; Bwlchygroes, Nanternis a'r Wern, cyn derbyn galwad i Beniel, Bwlch-y-corn ac Elim ym 1981. Bu'n weinidog yno am 16 mlynedd, gan barhau i fyw'n yr ardal ar ôl ymddeol. Bu farw yn 2013.

Gwas gwylaidd i Grist

"Gwyleidd-dra oedd prif nodwedd Eifion yn enwedig wrth esgyn i bulpud," meddai Nan Lewis ar ôl dadorchuddio'r gofeb i'w gŵr yng nghwmni ei meibion Heulyn a Hefydd ac aelodau eraill y teulu. "Yn aml, byddai'n teimlo nad oedd yn deilwng i'r gwaith ond fe gafodd y nerth i weinidogaethu am 56 o flynyddoedd – a thestun diolch yw hynny. Roedd ei ffydd yn Nuw yn ddi-ildio a'i ymddiriedaeth yn Iesu yn llwyr."

Yn cymryd rhan

Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchg Ken Williams, gweinidog presennol yr ofalaeth. Traddodwyd homili am 'y maen sy'n llefaru o'r mur' gan y Parchg John Gwilym Jones. Cafwyd darlleniad gan y Parchg Emlyn Lyn Evans, teyrngedau gan Arthur Morgan ar ran eglwys Peniel ac Alun Lenny, Bwlch-y-corn, ac eitem gan blant Ysgol Sul Peniel. Cyhoeddwyd emyn gan y Parchg Ddr Edwin Lewis a chyfeiliwyd gan Daphne Jones. Cafwyd lluniaeth ysgafn a siawns am sgwrs yn y festri wedi'r oedfa i gloi achlysur cofiadwy iawn.

Lluniau a geiriau: Alun Lenny

Caneuon a Cherddi Heddwch yn Heol Awst - *parhad*

yn dechrau gyda'r gerdd *'Gwyr a Aeth Catterick Barracks'* – adlais o'r gerdd hynafol *Y Gododdin*, gan fardd arall o'r enw Aneirin, sy'n adrodd hanes brwydr Catraeth (sef Catterick) tua'r flwyddyn 600. Esboniodd Aneirin Karadog fod y gerdd yn seiliedig ar stori wir. Ynddi, mae tad yn mynd â'i fab mewn car i ymuno â'r fyddin:

'Gyrru'i fab i gwr ei fedd
a'r gyrru'n ddidrugaredd.'

Yn y gerdd, mae'r tad yn ceisio darbwyllo'i fab rhag mynd yn filwr, ond mae hwnnw yr un mor benderfynol o fynd. Mae adlais bwriadol yn y gerdd hefyd o awdl 'Y Gwanwyn' Dic Jones. Mae fferm yr Hendre yn ffinio â Maes Awyr Aberporth, lle maen nhw'n ymarfer yr Adar Angau - y drons sy'n cael eu defnyddio i ladd. Lle roedd Dic Jones yn gweld aderyn heddwch, Adar Rhyfel welir uwchben yr Hendre heddi:

'Y mae'n Glamai, ond nid mwyn golomen
a ddaw heibio'n fflio'n wyn ei phluen.
Hebog llygadog sy'n hel llygoden
deryn a chwennych y drin a'i chynnen
a gwaed o'i big i'w aden.'

Mae cerddi Aneirin Karadog yn rhai dealladwy, pwerus ac amserol. Gobeithio y bydd eraill yn achub ar y cyfle i'w wahodd i'w hadrodd iddynt ac i glywed y cefndir hynod ddiddorol.

Yn Cymryd Rhan

Pasiwyd cynnig unfrydol yn gwrthwynebu gwario £50m ar hybu sefydlu unedau cadets milwrol mewn ysgolion (gweler rhifyn blaenorol o'r Tyst). Cadeirydd y noson oedd Mr Mel Jenkins, a llywyddwyd gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor, sy'n gadeirydd Rhwydwaith Heddwch yr Annibynwyr. Cafwyd defosiwn gan y Parchg Ganon Patrick Thomas, a chyfeiliwyd tri emyn heddwch gan Mrs Olga Williams.

Yn Heol Awst y cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol cyntaf Undeb yr Annibynwyr yn 1872, ac roedd naws y radicaliaeth cynnar yn drwm yn y capel mawr y noson honno.

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 149 | Rhif 39 | Medi 22, 2016 | 50c.

Caneuon a Cherddi Heddwch yn Heol Awst

Capel hynafol Heol Awst, Caerfyrddin oedd y llwyfan i ganeuon heddwch Dafydd Iwan a cherddi'r Prifardd Aneirin Karadog. Roedd tua 150 o bobl yn bresenol yn achlysur *'Heddwch–rhyw ddydd,'* cyfarfod nos Cwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin, lle'r oedd gwahoddiad i bawb a mynediad am ddim.

Caneuon Heddwch Dafydd Iwan

Tynnodd Dafydd Iwan sylw at y ffaith mai union 80 mlynedd yn ôl i'r dyddiad hwnnw – Medi8fed - y llosgwyd yr ysgol fomio gan Lewis Valentine, DJ Williams a Saunders Lewis. "Roedd y tri yn gwrthod gweld ein daear yn cael ei defnyddio at ddefnydd rhyfel," meddai Dafydd. Wrth gyflwyno'r gân "Mae nhw'n paratoi am ryfel" fe wnaeth ein hatgoffa mai ni sy'n talu'r biliynau lawer am adnewyddu Trident – "Yr arfau na all neb eu defnyddio," meddai. "Meddyliwch fod heddwch y byd yn dibynnu ar arfau mor ddychrynllyd o bwerus." Cafwyd cerddi hefyd, a'r caneuon am Victor Hara ac Oscar Romero – dau a lofruddiwyd gan lywodraethau milwrol, unbeniaethol. Ei gân olaf oedd "*Pam fod eira yn wyn.*"

Cerddi Aneirin

Bu Aneirin Karadog yn esbonio cefndir y cyfres o gerddi enillodd iddo gadair y Brifwyl yn Y Fenni eleni, cyn eu darllen yn eu cyfanrwydd. Mae'r dilyniant

parhad ar y dudalen gefn

Profiad bendithiol oedd cael bod yn rhan o'r gynulleidfa ddaeth ynghyd yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan, er mwyn addoli Duw a bod yn dystion i ordeinio Dr Rhodri Glyn, yn weinidog i'r Arglwydd Iesu yng ngofalaeth gyd-enwadol Bro Aled. Yn ystod ei dystiolaeth fe rannodd sut y daeth i gredu yn yr Arglwydd fel Gwaredwr dros gyfnod ac fel y teimlodd alwad Duw i fod yn weinidog, galwad a gadarnhawyd gan yr eglwysi oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Cefndir

Mae Rhodri yn wreiddiol o Gapel Curig a bu'n aelod yn Ebeneser, Deiniolen ac eglwys Nant-y-benglog. O Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy, Llanrwst, aeth i Brifysgol Aberystwyth lle enillodd radd mewn hanes a Ph.D. yn seiliedig ar '*David Rees, Y Cynhyrfwr*'. Yna cafodd hyfforddiant o dan y cynllun 'Dawn' gan dreulio blwyddyn gydag eglwysi yn ardal Cei Newydd. Bu'n gweithio yng ngofalaeth Bro Aled fel cynorthwyydd i'r gweinidog y Parchg Aneurin Owen. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu'n dilyn cwrs M.Th. yng Ngholeg Oak Hill, Llundain. Mae'n briod â Gwenno ac mae ganddynt ferch fach blwydd oed, Llio.

Cyfarfod

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchg Aneurin Owen ac arweiniwyd yr addoliad gan Andras Iago. Darllenwyd o'r Beibl gan y Parchg Dr. Geraint Tudur; roedd yr ordeinio yn nwylo medrus y Parchg Euros Wyn Jones, Coleg yr Annibynwyr; traddodwyd yr Urdd weddi gan y Parchg John Pritchard; rhoddwyd hanes yr alwad gan Mrs. Mair Owen cyn i'r Parchg Meirion Morris bregethu siars yn seiliedig ar 1 Timotheus 4: 1-10. Cymerwyd rhan hefyd gan Mrs Nancy Jones, Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint, Miss Morfudd Jones, Henaduriaeth Dyffryn Clwyd, Mr Gwion Llŷr Dafydd a Mr Huw Ll. Evans.

Cenhedlaeth newydd

Fe wnaeth yr oedfa hon ein hatgoffa fod Duw yn codi cenhedlaeth newydd o weinidogion yn ein plith i'w wasanaethu nawr ac i'r dyfodol. Ni fydd Duw byth yn gadael ei hun yn ddi-dyst, y mae bob amser yn gweithredu ei fwriadau. Dymunwn fendith yr Ysbryd Glân yn helaeth ar y Parchg Ddr Rhodri Glyn, Gwenno a Llio ac y bydd yr Arglwydd yn ei ddefnyddio i gyhoeddi ei air yn effeithiol, i fugeilio'r praidd yn dyner ac i weinyddu'r sacramentau yn ystyriol. Diolch i'r eglwysi hefyd am drefnu gwledd ar ein cyfer.

(Cynhaliwyd y cyfarfod Ordeinio ar ddydd Sadwrn 17 Medi 2016)

Lluniau: Hywel Meredydd

MARI JONES - *YN ÔL FY NHROED*

Mae festri Capel Y Priordy, Caerfyrddin yn llawn bwrlwm ar fore Sul arferol, ond roedd mwy o gyffro nag arfer i'w glywed yno ar fore Sul Medi 18. Y rheswm? Daeth Mari Jones ar ymweliad â'r Ysgol Sul! Braint yn wir oedd gwahodd Sioe Mari Jones, '*Yn ôl fy Nhroed'* gan Siân Melangell Dafydd atom i'r festri am y bore fel rhan o weithgrawch *Blwyddyn y Beibl Byw* yn Eglwysi'r Ofalaeth, a hyfryd oedd croesawu nifer o Ysgolion Sul y cylch atom i rannu â ni ym mwrlwm y bore.

Roedd y cyflwyniad '*Mewn Cymeriad'* yn rhan o Wyl Hanes Cymru i Blant - Cwmni sy'n trefnu llwyfannu digwyddiadau i blant yn ystod mis Medi yn flynyddol. Bwriad yr Wyl yw estyn cyfleodd unigryw i blant a'r cyhoedd ddysgu mwy am rai o gymeriadau difyr ein gorffennol, a dathlu hanes a threftadaeth cyfoethog Cymru.

Trwy gyfrwng cyflwyniad bywiog, dealladwy a byrlymus, bu'r plant, y bobl ifanc a'u teuluoedd yn ystyried pam fyddai unrhywun am gerdded 26 milltir heb esgidiau er mwyn prynu Beibl? Cafwyd cyfle i glywed hanes am ferch ifanc benderfynol. Merch ysgol dlawd â'i bryd ar rywbeth pwysig. Merch ifanc a gyflawnodd rhywbeth mawr. Bu'r bore yn wir yn gyfle gwych i ddysgu mwy am y Gymraes o droed Cader Idris a adawodd ôl ei throed led led y byd drwy gerdded o Lanfihangel y Pennant i'r Bala.

Diolch am fore a fydd yn aros yn y cof am amser hir, a diolch arbennig i Rhaglen Datblygu Undeb yr Annibynwyr am noddi'r digwyddiad.

Dymuno'n dda i ferched Gellimanwydd

Yn ystod oedfa bore Dydd Sul 11 Medi cafodd cynulleidfa Capel Gellimanwydd Rhydaman gyfle i ddymuno'n dda i ddwy o ferched yr ysgol Sul cyn iddynt fynd i'r Brifysgol. Mae Mari Llywelyn yn mynd i Gaerdydd i astudio Deintyddiaeth ac Elan Daniels i Gaergrawnt i astudio Milfeddygaeth. Yn y llun: eu gweinidog y Parchg Ryan Thomas yn cyflwyno rhodd fechan i'r ddwy.

Cynhelir

Cyfarfod Sefydlu

Y Parchedig Carwyn Siddall

yn weinidog ar

Eglwys yr Annibynwyr, Y Bala

ac i groesawu'r Eglwys yn rhan o Ofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch

Ddydd Sadwrn, Hydref 8fed, 2016
am 2.30 o'r gloch

yng Nghapel yr Annibynwyr, Y Bala.

Croeso cynnes i bawb

Barn Annibynnol

Euryn Ogwen Williams

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod fel meri-go-rownd yn y byd gwleidyddol ac mae'n debygol o barhau am rai wythnosau a misoedd eto gyda'r Unol Daleithiau a nifer o wledydd yn Ewrop yn dewis arweinydd. Bob tro mae'r carwsel yn troi mae rhywun newydd yn marchog y ceffyl. Yn ein byd cysylltiedig parod ni, mae popeth yn digwydd a darfod ar amrantiad; mae'r carwsel yn mynd rownd a rownd yn gyflymach ond dim yn symud ymlaen.

Dechrau Syrffedu

Mae yna dystiolaeth yn y cyfryngau fod pobl yn dechrau syrffedu ar arweinyddion a'r holl syniadaeth wag sy'n gwahaniaethu'r naill oddiwrth y llall. Mewn byd sy'n cael ei reoli yn y pen draw gan gorfforaethau di-wyneb sydd â grym ac uchelgais economaidd uwch na'r mwyafrif o wladwriaethau'r byd, mae yna rhywbeth gwag iawn mewn cystadleuaeth i fod yn arweinydd democrataidd.

Mi ddarllenais erthygl yn ddiweddar gan fam oedd yn poeni ar y pwysau diddiwedd oedd cymdeithas yn ei roi ar ei phlant i 'lwyddo' yn y modd mwyaf arwynebol. Roedd hyn yn dinistrio plentyndod ac yn creu problemau i ddyfodol ein cymdeithas; iddi hi roedd cystadleuaeth yr arweinyddion yn dangos mor ddiystyr oedd y math yma o llwyddiant.

Siarad – nid gwrando

Mae'n cymdeithas ni yn gallu siarad ond ddim yn gallu gwrando, yn fwy awyddus i gwyno nag i estyn llaw i helpu. Mae ein disgwyliadau yn fawr, a'n haelioni yn fychan. Byddwn yn chwilio am beth sy'n wahanol yn hytrach na beth sy'n debyg ac yn corlannu unigolion mewn grwpiau a gosod label ar eu talcen. Mae selebs yn troi'n eilunod ac mae bywyd yn gêm.

Mae diffyg parch at eraill, diffyg syched am gyfiawnder, ennill rhyw fath o rym ac enwogrwydd ar draul eraill yn arwydd o lwyddiant a rhyddid; ac mae ein defnydd o dechnoleg ein byd cysylltiedig yn ffafrio anoddefgarwch a chreulondeb. Mae cyrraedd pinacl llwyddiant parod yn bwysicach na'r ffordd a ddewisir i gyrraedd yno. Rydym yn disgwyl maddeuant i ni ein hunain heb ystyried maddau gwendidau eraill.

Sail harddwch yw sut mae rhywun yn edrych; yr ydym yn troi lens y camera arnom ein hunain yn hytrach na thynnu llun yr harddwch sydd o'n cwmpas; gwybodaeth yw'r data y bydd arbenigydd yn ei ddehongli i'w bwrpas ei hun. Mae barnu eraill yn gryfder a thosturio yn wendid. Wrth ymladd i fod yn arweinydd, rheolau Game of Thrones ac nid unrhyw orsedd arall sy'n teyrnasu.

Y Gwir Arweinydd

Pwynt y fam yn yr erthygl y soniais amdani oedd ei bod wedi syrffedu ar arweinyddion, ac mai prinder dilynwyr ffyddlon yw diffyg ein cymdeithas. Roedd hi am i'w phlant osgoi pwysau cymdeithas a sylweddoli fod gennym arweinydd yn barod – Un oedd wedi troi ein syniadau cyfoes am natur cymdeithas a'i wyneb i waered ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Roedd hi am i'w phlant sylweddoli nad oedd pwysau arnyn nhw i 'lwyddo', dim ond byw bywyd ystyrlon wedi ei wreiddio mewn cyfiawder a chariad. Roedd hi'n derbyn y byddai hynny'n fwy o her na neidio ar y carwsel; ond dyw hynny ddim yn rheswm i beidio trio.

Euryn Ogwen Williams

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

NY AKO YN MINNY STREET

Cafwyd noson wefreiddiol yng nghwmni Ny Ako (Yr Adlais) - grŵp Cristnogol o Fadagascar ym Minny Street. Gyda chynulleidfa dda o bob oedran yn y festri roedd pawb mewn hwyliau da a chryn edrych ymlaen at y cyngerdd, ac ni'n siomwyd.

Prif bwrpas Ny Ako yw codi ymwybyddiaeth o gyfoeth diwylliannol Madagascar trwy gyflwyno celf a cherddoriaeth, crefftau a gwisgoedd traddodiadol yr ynys. Bob dwy flynedd mae'r grŵp yn teithio am dri mis i Ewrop a Phrydain, dan nawdd y *Scripture Union*, i ddiddanu cynulleidfaoedd drwy ganu a dawnsio a'r cyfan mewn moliant i Dduw.

Estynnwyd croeso i bawb gan ein gweinidog cyn trosglwyddo'r awenau i arweinydd y grŵp, Désiré Rabenifdara a danlinellodd y cyswllt agos sydd wedi bodoli rhyngom ers i Genhadon o Gymru ymweld â'r Ynys Fawr ddwy ganrif yn ôl.

Amrywiaeth o ganeuon

Cawsom amrywiaeth o ganeuon, mewn sawl iaith ac o sawl gwlad - gan gynnwys Malagasy, ynghyd ag amrywiaeth o ddawnsfeydd. Roedd y gerddoriaeth yn llawen ac yn fywiog a phawb ar brydiau yn cyd-symud â'r gerddoriaeth ac yn curo dwylo. Pleser pur oedd gweld y merched a'r dynion yn symud mor osgeiddig ar lawr y festri. Roedd y gwisgoedd lliwgar yn ddigon o ryfeddod. Heb os un o uchafbwyntiau'r noson oedd y ddawns yn creu pleth hir fel pleth gwallt o ddefnyddiau lliwgar - "Pletha ni ynghyd" meddai un o'r negeseuon trydar yn ystod y noson.

Cyngerdd wnaeth wir godi'n calonnau gan roi'r awydd i ni ganu, gyda'r emynydd W Rhys Nicholas, "Mae'r haleliwia yn fy enaid i a rhoddaf Iesu fy mawrhad i Ti". Does dim syndod o gwbl i bawb godi ar eu traed ar ddiwedd y gyngerdd. Braint oedd bod yn Minny Street y noson honno a gobeithio'n wir cawn gyfle i groesawu Ny Ako nôl i'n plith yn y dyfodol.

I gloi'r noson, braf oedd cymdeithasu dros baned a chael cyfle i brynu rhai o grefftau Madagascar tra aeth aelodau Ny Ako i mewn i'r capel i dynnu llun o flaen carreg goffa Mair Griffiths, un o blant Minny Street, a fu'n genhades ym Madagascar am flynyddoedd lawer.

Margaret Davies

Opera Porth Tywyn
yn cyflwyno Saint-Saens
Samson a Delilah
Neuadd Goffa Porth Tywyn
Hydref 19, 21, a 22 am 7pm
Tocynnau: 01554 835659